

## PARRY-WILLIAMS, DAVID EWART (1900-1996), cerddor

**Enw:** David Ewart Parry-williams  
**Dyddiad geni:** 1900  
**Dyddiad marw:** 1996  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cerddor  
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth  
**Awdur:** Rhidian Griffiths

Ganwyd yng Nglyn-nedd, Morgannwg, 25 Mehefin 1900, yn fab i ysgolfeistr Glyn-nedd, Tom Williams, a'i wraig Mary Ann a gadwai Swyddfa'r Post yn y pentref. Cafodd hyfforddiant mewn cerddoriaeth gan ei ewythr, organydd Bethania, Glyn-nedd, a bu'n cyfeilio ar y sielo mewn cerddorfa fach yng nghapel Bethania. Pan symudodd ei ewythr i Llundain i fod yn organydd capel Cymraeg Charing Cross cafodd y nai gyfle i ymweld ag ef a chlywed organyddion proffesiynol mewn eglwysi mawr. Wedi cyfnod yn y llynges ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf bu'n fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, gan raddio mewn cemeg a chael tystysgrif athro: cadwodd ei ddiddordeb mewn peiriannau ar hyd ei oes.

Yn 23 oed enillodd ysgoloriaeth i astudio cerddoriaeth yng Nghaerdydd o dan yr **Athro David Evans**: yr oedd y gyfansoddwraig **Grace Williams** yn gyd-efrydydd ag ef. Bu'n athro yn ysgol yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf ac yn Ysgol Lewis, Pengam cyn cael ei benodi'n ddarlithydd yn Adran Addysg Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Parhaodd i astudio cerddoriaeth, gan ennill LRAM mewn canu piano, cael gwersi arwain gydag Adrian Boulton yn Llundain, a graddio'n D.Mus. (Cymru) yn 1941. Yn y 1930au yr oedd yn un o'r cyntaf i gyfrannu i raglenni cerddoriaeth y BBC i ysgolion, ac yn ystod yr un cyfnod bu'n organydd a chorfeistr capel Pembroke Terrace yng Nghaerdydd.

Yn 1943 fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Cerdd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor, yn olynydd i **E. T. Davies**, a derbyn Cadair mewn Cerddoriaeth ym Mangor yn 1963. Yn ystod ei yrfa yn datblygodd lawer ar yr Adran Gerdd. Brwydrodd i sefydlu cyrsiau gradd mewn cerddoriaeth, a phenododd gyfansoddwyr megis Reginald Smith Brindley (ei olynydd yn y gadair) a **William Mathias** yn ddarlithwyr. Fe'i cyfrifid yn athro ysbrydoledig, llawn brwdfrydedd a hiwmor. Ymdeolodd yn 1967 a dychwelyd i Gaerdydd.

Oherwydd ei ymrwymiad i ddysgu ac i ddatblygu'r adran ym Mangor, nid oedd yn gyfansoddwr toreithiog, ond perfformiwyd ei 'Introduction and Allegro' yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhos 1945 gan Gerddorfa Simffoni Llundain. Mae ei gyfansoddiadau yn draddodiadol eu ffurf a'u tonyddiaeth ac yn gywrair a manwl eu gwneuthuriad, ond cymerai hefyd ddiddordeb byw mewn cerddoriaeth gyfoes. Cyhoeddwyd nifer o'i drefniannau o alawon gwerin yn ystod ei oes ac wedi ei farwolaeth. Ei gyhoeddiad mwyaf llwyddiannus oedd ei werslyfr *A Music Course for Students* (1937), a gafodd gylchrediad eang yn ysgolion Cymru a thu hwnt, ac a ymddangosodd hefyd yn *Gymraeg dan y teitl Eifennau Cerddoriaeth* (1938).

Bu'n beirniadu'n gyson yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Eisteddfod Llangollen ac ef oedd sefydlydd Ysgol Haf Cerddoriaeth Harlech. Ef hefyd oedd Cadeirydd cyntaf Pwyllgor Cerddoriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru (1955-62). Yr oedd yn aelod o Fwrdd Gwasg Prifysgol Cymru ac yn un o'r panel a luniodd *Termau Cerddoriaeth* (1984).

Priododd ag Avarina Davies yn 1931 a chawsant un ferch, Ann. Bu farw yng Nghaerdydd, 10 Medi 1996. Sefydlwyd efrydiaeth yn ei enw ym Mangor gydag arian a ewyllysodd i'r Coleg.

### Awdur

Rhidian Griffiths

### Ffynonellau

*Cerddoriaeth Cymru, cylchgrawn y Gymdeithas er hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru*, Gaeaf 1991-2, Haf 1997

*Y Goleuad*, 8 Tachwedd 1996

*Y Traethodydd*, 146 (1991)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734127

**Dyddiad cyhoeddi:** 2013-03-01

**Hawffraint Erthygl:** <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Yrannu

Arddull APA

x

Griffiths, R., (2013). PARRY-WILLIAMS, DAVID EWART (1900-1996), cerddor. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-PARR-EWA-1900>

Yrannu

Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Modeld ari  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government